

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu)

Mawrth 2021

Cyflwyniad

1. Ar 17 Chwefror 2021, gosododd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) ('y Memorandwm') sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.
2. Ar 23 Chwefror 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 25 Mawrth 2021.
3. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2021.

Cefndir

4. Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) ('y Bil') yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Chwefror 2020. Mae'r Bil yn Fil Aelod Preifat a gefnogir gan Lywodraeth y DU, wedi'i noddi gan Chris Loder AS.
5. Cyflwynwyd Bil tebyg, y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu), ger bron Senedd y DU ym mis Mehefin 2019, ond amharwyd ar basio'r Bil hwnnw oherwydd addoedi Senedd y DU a'i diddymu cyn etholiadau Tŷ'r Cyffredin.

Trosolwg o'r Bil

6. Mae teitl hir y Bil yn nodi diben y Bil:



“Make provision about the mode of trial and maximum penalty for certain offences under the Animal Welfare Act 2006.”

7. Mae'r Bil yn cynyddu'r gosb uchaf am droseddau penodol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gwneud hynny drwy estyn y gosb uchaf bresennol, a bennir yn adran 32 o'r Ddeddf, o chwe mis a/neu ddirwy ddiderfyn i gosb o bum mlynedd a/neu ddirwy ddiderfyn. Bydd y troseddau hyn felly yn brofadwy, a gellir eu clywed yn Llys yr Ynadon neu yn Llys y Goron.

Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

8. Mae paragraff 14 o Femorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 a 2 o'r Bil. Mae Atodiad A ar dudalen 6 o'r Nodiadau Esboniadol a baratowyd gan DEFRA hefyd yn nodi bod Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau 1 a 2 o'r Bil.

Cymal 1 – Dull y treial a'r gosb uchaf am droseddau penodol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid

9. Mae Cymal 1 o'r Bil yn diwygio adran 32 o'r Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (“Deddf 2006”) (pwerau ôl-gollfarnau: carcharu neu ddirwy).

10. Mae adran 32(1) o Ddeddf 2006 yn darparu mai 51 wythnos o garchar a/neu ddirwy lefel 5 fydd y gosb uchaf am droseddau penodol.

11. Yn ymarferol, mae hwn yn gosb uchaf o 6 mis a dirwy ddiderfyn. Y rheswm am hyn yw am fod adran 32(5) yn nodi cosb uchaf o 6 mis ar gyfer pob trosedd a gyflawnwyd cyn cychwyn adran 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Hyd yma, nid yw'r adran hon wedi ei chychwyn.

12. Mae Cymal 1 yn newid uchafswm y gosb am y troseddau canlynol yn unig:

- Peri dioddefaint diangen (adran 4, Deddf 2006);
- Cynnal anffurfiad nad yw'n esempt (adran 5, Deddf 2006);
- Tocio cynffon ci ac eithrio pan ganiateir hynny (adran 6(1) a 6(2), Deddf 2006);
- Rhoi gwenwyn i anifail (adran 7, Deddf 2006); a
- Bod yn gysylltiedig mewn ymladdfa anifeiliaid (adran 8, Deddf 2006).

13. Cedwir y gosb uchaf bresennol os caiff y troseddwr euogfarniad ddiannod. Fodd bynnag, gall troseddwr sydd wedi'u cael yn euog mewn treial trwy dditiad gosb uwch o hyd at 5 mlynedd o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn.

14. Nid oes gan Lysoedd Ynadon y pŵer i roi cosb o fwy na chwe mis. Roedd Adran 154(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn cynyddu uchafswm y ddedfryd o garchar y gallai llys ynadon ei rhoi i 12 mis. Caiff adran 154(1) ei diddymu gan Ddeddf Dedfrydu 2020 ond mae darpariaeth gyfatebol wedi'i chynnwys ym mharagraff 24(2) o Atodlen 22 i Ddeddf 2020. Bydd adran 32(4A) o Ddeddf 2006 a fewnosodir gan y cymal hwn yn sicrhau bod y cosbau priodol ar gael i lysoedd ynadon hyd nes y bydd y darpariaethau perthnasol yn cychwyn.

Cymal 2 – Cwmpas, cychwyn a theitl byr

15. Mae'r cymal hwn yn darparu i'r Bil gwmpasu Cymru a Lloegr ac y daw'r Bil i rym ddeufis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r cymal hwn yn nodi nad yw'r diwygiadau hyn yn gymwys i droseddau a gyflawnwyd cyn i'r Bil ddod i rym. Mae'r cymal hefyd yn pennu teitl byr y Bil.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil y DU

16. Wrth nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros ddefnyddio'r Bil i ddeddfu mewn perthynas â Chymru, dywed y Memorandwm fel a ganlyn:

“Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn am resymau amseru a chydlynu. Mae darpariaethau'r Bil yn cyd-fynd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru o ran hybu lles anifeiliaid. Bydd bwrw ymlaen â hwy yn y Bil DU hwn yn golygu y gellir cosbi'r troseddau creulondeb mwyaf difrifol a gyflawnir i anifeiliaid yng Nghymru ar yr un lefel â'r rhai yn Lloegr.”

17. Mae hefyd yn nodi:

“Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn gan y byddai'n sicrhau bod trefn ddedfrydu gyson yng Nghymru a Lloegr ac y byddai'n rhoi eglurder i'r asiantaethau gorfodi, y Lysoedd ac i'r cyhoedd.”

Ein barn ni

- 18.** O ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael inni ystyried ac adrodd ar y Memorandwm, ni fu'n bosibl edrych yn fanwl ar y cynigion.
- 19.** Mae'r Pwyllgor yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Ni chanfu unrhyw reswm i wrthwynebu'r Senedd yn cytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm.